Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad Dilynol o Drefniadau Rheoli Prosiect – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3288A2022

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o waith a berfformiwyd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn rhinwedd eu swydd unigol, nac unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus wrth drin ceisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru i swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

# Cynnwys


Mae'r Cyngor yn defnyddio CAMMS i gofnodi a rheoli ei holl raglenni a phrosiectau sylweddol.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn defnyddio CAMMS i gofnodi a rheoli ei holl raglenni a phrosiectau sylweddol 6

Mae holl swyddogion y Cyngor yn defnyddio'r feddalwedd CAMMS bellach ar gyfer pob prosiect sylweddol 6

Gwnaeth y Cyngor ddefnyddio'r system CAMMS i reoli'r tri phrosiect a adolygwyd gennym, ond mae mân gyfleoedd i wella'r trefniadau ymhellach 7

Fel rhan o'i raglen a'i drefniadau rheoli prosiect, mae'r Cyngor yn ystyried yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy mewn modd gweithredol 8

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Mae'r adolygiad yn ddilyniant i ddarn o waith archwilio a gwblhawyd yn 2020. Cynhaliwyd adolygiad 2020 er mwyn cael sicrwydd bod y Cyngor wedi gwella'i drefniadau rheoli prosiectau a gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion a wnaed mewn adroddiad annibynnol ar brosiect Parc Masnach Mochdre y Cyngor (a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ar 21 Mawrth 2019). Gwnaethom ddweud yn ein hadroddiad yn 2020, 'Mae'r Cyngor wedi gwella trefniadau rheoli prosiectau a'u diffinio nhw'n glir, ond absenoldeb gwaith rheoli prosiectau yn yr eiddo ym Mharc Masnach Mochdre oedd prif achos y problemau a ddigwyddodd.' O ganlyniad, gwnaethom un cynnig i wella:

- mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau eu bod yn defnyddio system CAMMS i gofnodi a rheoli pob prosiect sy'n dod o fewn cylch gwaith Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau y Cyngor.

2 Adolygiad dilynol yw hwn ar yr un cynnig hwnnw i wella.

3 Gwnaethom gynnal yr adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Awst 2022 a mis Hydref 2022.

4 Gwnaethom adolygu trefniadau rheoli prosiect Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor). Edrychwyd ar sut y mae'r Cyngor yn cofnodi a rheoli prosiectau o fewn ei Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau (y Fframwaith)[1]. Roedd gennym bwyslais penodol ar p'un a oedd y Cyngor yn defnyddio ei system CAMMS[2] i reoli pob prosiect. Gwnaethom adolygu tri phrosiect o bortffolio'r Cyngor. Gwnaethom gymryd sampl o dri phrosiect ar wahanol gamau yng nghylch bywyd y prosiect, yn hytrach nag adolygu'r holl brosiectau y mae'r Cyngor yn eu rheoli ar hyn o bryd.

[1] Cymeradwyodd Cabinet y Cyngor Fframwaith Rheoli Prosiectau Corfforaethol yn 2007. Datblygodd hyn i fod y Rhaglen bresennol a'r Fframwaith Rheoli Prosiectau yn 2011. Mae'r Fframwaith yn darparu dull generig, y gellir ei chyflwyno ar raddfa fwy, strwythuredig o gyflawni rhaglenni a phrosiectau, gyda rolau, cyfrifoldebau a threfniadau llywodraethu wedi'u nodi'n glir. Mae'r Fframwaith wedi'i seilio ar y 'Prosiectau mewn Amgylchedd Rheoledig' (PRINCE 2) a'r methodolegau 'Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus' (MSP) ac mae'n adlewyrchu'r arfer gorau o ran rheoli prosiectau a rhaglenni.

[2] Yn 2015, caffaelodd y Cyngor system rheoli rhaglenni a phrosiectau o'r enw CAMMS. Mae'n system feddalwedd sy'n ymgorffori perfformiad, risg, archwilio, a rheoli peryglon. Mae'n galluogi pobl i reoli rhaglenni a phrosiectau drwy system llif gwaith. Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda'r cyflenwr i deilwra'r feddalwedd i gefnogi'r Fframwaith a darparu dull cyson o reoli prosiectau.

## Yr hyn a ddarganfuwyd

5 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: 'A yw'r Cyngor yn rheoli ac yn cofnodi pob prosiect sy'n dod o fewn cylch gwaith Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau y Cyngor yn CAMMS?'

6 Ar y cyfan, gwelsom fod: Y Cyngor yn defnyddio CAMMS i gofnodi a rheoli ei holl raglenni a phrosiectau sylweddol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:

- mae holl swyddogion y Cyngor yn defnyddio CAMMS bellach ar gyfer pob prosiect sylweddol;
- gwnaeth y Cyngor ddefnyddio CAMMS i reoli'r tri phrosiect a adolygwyd gennym, ond mae mân gyfleoedd i wella'r trefniadau ymhellach; a
- fel rhan o'i raglen a'i drefniadau rheoli prosiect, mae'r Cyngor yn ystyried yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy mewn modd gweithredol.

## Argymhelliad

**Arddangosyn 1: argymhelliad**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhelliad yr ydym wedi'i nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhellion |
|---|
| **Arweiniad ar adroddiadau CAMMS**<br>A1 Dylai'r Cyngor ddarparu arweiniad i reolwyr prosiect ar amserlenni ar gyfer cyhoeddi adroddiadau gorfodol o fewn CAMMS. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn defnyddio CAMMS i gofnodi a rheoli ei holl raglenni a phrosiectau sylweddol

### Mae holl swyddogion y Cyngor yn defnyddio'r feddalwedd CAMMS bellach ar gyfer pob prosiect sylweddol

7 Wrth ddod i'r casgliad hwn gwelsom y canlynol:

- roedd y tri phrosiect a adolygwyd gennym wedi defnyddio neu yn defnyddio CAMMS i gofnodi a rheoli'r gwaith cyflwyno.
- mae'r Fframwaith yn esbonio pa brosiectau ddylai ddefnyddio CAMMS. Mae'r Fframwaith yn diffinio pum graddfa o brosiectau, ac mae'n rhaid i brosiectau yn y pedwar categori graddfa uchaf ddefnyddio CAMMS. Nid oes rhaid i'r prosiectau ar y raddfa leiaf ('Tasgau' lle mae costau o fewn y gyllideb 'busnes fel arfer') ddefnyddio'r system gan eu bod yn cynrychioli risg gymharol isel i'r Cyngor.
- mae CAMMS yn creu cyfres safonol o adroddiadau, a dywedodd swyddogion wrthym eu bod yn eu galluogi i reoli prosiectau yn effeithiol. Bydd Bwrdd Prosiect yn disgwyl gweld y gyfres hon o adroddiadau ym mhob cyfarfod prosiect. Dywedodd swyddogion wrthym, drwy ddilyn y system CAMMS, y bydden nhw'n cadw at y Fframwaith ac yn cyrraedd y safonau rheoli prosiectau uchel a ddisgwylir gan fethodolegau ‘Prince 2' a 'Rheoli Prosiectau Llwyddiannus'.
- mae tîm cymorth canolog y Cyngor ar gyfer rheoli prosiectau yn monitro prosiectau i sicrhau bod yr holl brosiectau perthnasol yn defnyddio CAMMS. Bydd y tîm yn gwneud gwaith dilynol ar brosiectau nad yw'n eu gweld ar y gofrestr i helpu tîm y prosiect i ddefnyddio CAMMS.
- mae'r Cyngor wedi datblygu dull o sicrhau bod y Gwasanaeth Amgylchedd, Ffyrdd, a Chyfleusterau (ERF) yn rheoli ei holl brosiectau drwy CAMMS. Mae wedi creu pedair rhaglen gyffredinol o fewn CAMMS i ddarparu trefniadau effeithiol i reoli a llywodraethu prosiectau.
- mae'r Fframwaith a'r hyfforddiant rheoli prosiectau a ddarperir gan y Cyngor yn esbonio'n glir y defnydd o CAMMS. Roedd y Cyngor wedi cryfhau ei hyfforddiant rheoli prosiectau ers ein gwaith yn 2020 drwy greu'r cwrs 'Ailedrych ar Reoli Prosiectau'.
- mae gan y Cyngor Fforwm Rheoli Prosiectau a Rhaglenni datblygedig. Mae'r Fforwm yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i swyddogion am feddalwedd CAMMS, yn rhannu arferion da, yn trafod gwersi a ddysgwyd, yn darparu hyfforddiant, ac yn casglu adborth.

## Gwnaeth y Cyngor ddefnyddio’r system CAMMS i reoli'r tri phrosiect a adolygwyd gennym, ond mae mân gyfleoedd i wella'r trefniadau ymhellach

8 Wrth ddod i'r casgliad hwn gwelsom y canlynol:

- Defnyddiodd prosiect Ysgol Gynradd Caerhun a Threfriw CAMMS i gofnodi a rheoli trefniadau’r prosiect. Ond nid yw'r Cyngor wedi cyhoeddi Adroddiad Cau.
  - cwblhaodd y contractwyr y prosiect a throsglwyddo'r ysgol yn ôl i'r Gwasanaeth Addysg ym mis Medi 2019. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn weithredol ac mae disgyblion ar y safle.
  - roedd Tîm y Prosiect wedi creu Adroddiad Gwersi a Ddysgwyd drwy CAMMS ond nid yw wedi cyhoeddi Adroddiad Cau.
  - mae'r Fframwaith yn dweud bod Adroddiad Cau (Adroddiad Diwedd Prosiect) yn orfodol ar gyfer prosiect ar y raddfa hon. Fodd bynnag, nid yw'r Fframwaith yn rhoi terfyn amser ar gyfer creu adroddiad o'r fath.
  - nid yw Tîm y Prosiect wedi cyhoeddi Adroddiad Cau gan fod problem o hyd o ran draenio. Mae'r Cyngor yn cadw swm o arian gan y contractwyr nes eu bod wedi unioni'r mater.
  - mae Rheolwr y Prosiect wedi cyhoeddi diweddariadau ar lafar i Fwrdd y Prosiect yn lle cyflwyno Adroddiad Cau.
- defnyddiodd y rhaglen adfywio’r Gwaith Brics CAMMS i sefydlu ei threfniadau cychwynnol, fel y Ddogfen Diffinio’r Rhaglen.
  - nid ydym wedi gweld unrhyw Adroddiadau Uchafbwyntiau gan CAMMS ar gyfer y rhaglen hon.
  - mae'r Fframwaith yn datgan bod Adroddiad Uchafbwyntiau yn orfodol ar gyfer prosiectau ar raddfa’r rhai hynny sy'n rhan o'r Rhaglen Gwaith Brics.
  - roedd y Gwaith Brics yn gasgliad o dasgau 'busnes fel arfer' a gynyddodd i fod yn dri phrosiect a chafodd ei gymeradwyo wedyn yn rhaglen ar ddiwedd 2020.
  - mae'r rhaglen ar gam cynnar ac mae'r tri phrosiect sy’n rhan ohoni ar fin dechrau’r cam cyflawni. Dywedodd y Cyngor wrthym y bydd yn creu Adroddiadau Uchafbwyntiau ar ôl iddo wneud penderfyniadau manwl ynglŷn â’r safle.
- defnyddiodd Prosiect Datblygu Dwyrain Abergele CAMMS i sefydlu ei drefniadau cychwynnol, gan gynnwys Briff Prosiect a Dogfen Ddiffinio’r Rhaglen.
  - roedd cyfarfod olaf y prosiect ym mis Chwefror 2022.

– mae'r Cyngor wedi oedi'r prosiect wrth iddo aros i ddatrys problem mynediad safle gyda thrydydd parti. Cofnododd Tîm y Prosiect fod y prosiect wedi'i oedi yng nghofnodion cyfarfod Bwrdd y Prosiect.

## Fel rhan o'i raglen a'i drefniadau rheoli prosiect, mae'r Cyngor yn ystyried yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy mewn modd gweithredol

9 Wrth ddod i'r casgliad hwn gwelsom y canlynol:

- mae gan Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau y Cyngor ganllawiau ar yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, y Pum Ffordd o Weithio, a'r Saith Nod Llesiant Cenedlaethol.
- mae gan y dogfennau rheoli prosiect a luniwyd drwy CAMMS (er enghraifft, Dogfen Diffinio'r Prosiect, yr Adroddiad Uchafbwyntiau, a'r Adroddiad Cau) adrannau ar yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy y mae'n rhaid i swyddogion ei chwblhau.
- mae tîm rheoli prosiect corfforaethol ymroddedig y Cyngor yn darparu hyfforddiant rheoli prosiectau sy'n cynnwys yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.
- mae dogfennau rheoli prosiect CAMMS yn amlinellu'n glir sut y mae prosiect yn integreiddio â strategaethau a chynlluniau presennol eraill. Maen nhw hefyd yn cynnig gweledigaeth ar gyfer pob prosiect sy'n cynrychioli golwg ar y dyfodol (y darlun 'i fod').
- mae'r Cyngor wedi datblygu offeryn cynaliadwyedd i reolwyr prosiect asesu sgôr cynaliadwyedd eu prosiect.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.